OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2496 (Cy.215)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *28 Awst 2007* |
| *Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *29 Awst 2007* |
| *Yn dod I rym - -* | *24 Medi 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973([1]) ac a freiniwyd bellach ynddynt gan adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a chyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Medi 2007.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliad Ewropeaidd" ("*the European Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli salmonela ac asiantau milheintiol penodedig eraill sy'n ymledu drwy fwyd ([2]);

ystyr "Rheoliadau 2006" ("*the 2006 Regulations*") yw Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006([3]);

ystyr "samplau rheoli swyddogol" ("*official control samples*") yw samplau sydd wedi'u cymryd o dan bwynt 2.1.2.2 o'r Atodlen i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005 sy'n

(**1**) 1973 p.51.
(**2**) OJ Rhif L325, 12.12.2003, p.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006 dyddiedig 20 Tachwedd 2006.
(**3**) O.S. 2006/1293 (Cy.127).

gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn heidiau bridio o Gallus gallus ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003(**4**).

**Ffioedd**

**3.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru godi unrhyw ffioedd a fydd yn eu barn hwy yn eu galluogi i dalu unrhyw dreuliau rhesymol yr ânt iddynt wrth iddynt gyflawni'r gweithgareddau a ganlyn—

(a) cymryd neu oruchwylio cymryd samplau rheoli swyddogol;

(b) archwilio samplau rheoli swyddogol;

(c) prosesu cais am gymeradwyo labordy o dan reoliad 21 o Reoliadau 2006 neu Erthygl 12 o'r Rheoliad Ewropeaidd;

(ch) prosesu dogfennaeth y gymeradwyaeth yn dilyn cais y cyfeirir ato yn is-baragraff (c);

(d) prosesu cais adnewyddu blynyddol o labordy a gymeradwyir o dan reoliad 21 o Reoliadau 2006 neu Erthygl 12 o Reoliad Senedd Ewrop;

(dd) archwilio labordy at ddiben rheoliad 21 o Reoliadau 2006 neu Erthygl 12 o'r Rheoliad Ewropeaidd;

(e) gweinyddu prawf rheoli ansawdd o dan reoliad 21 o Reoliadau 2006 neu Erthygl 12 o'r Rheoliad Ewropeaidd.

(2) Mae ffioedd yn daladwy i Weinidogion Cymru gan —

(a) y person sydd â gofal daliad pan fo samplau rheoli swyddogol yn cael eu cymryd o ran y gweithgareddau ym mharagraff 2(a) a (b); a

(b) gweithredydd y labordy o ran y gweithgareddau ym mharagraff (2)(c) i (g).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

28 Awst 2007

(**4**) OJ Rhif L 170, 1.7.2005, t.12.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu i Weinidogion Cymru godi ffioedd am weithgareddau sy'n ofynnol o dan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005, Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 a Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006. Rhestrir y gweithgareddau yn rheoliad 3(1).

Mae asesiad rheoliadol llawn o'r effaith a gaiff y Rheoliadau hyn wedi cael ei lunio ac mae wedi ei atodi i'r Memorandwm Esboniadol. Gellir cael copïau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.